

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Tachwedd 2021



1. Cefndir

Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16¹ (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mai 2021. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg.

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben:

"A Bill to make provision about local skills improvement plans; to make provision relating to further education; to make provision about functions of the Institute for Apprenticeships and Technical Education and relating to technical education qualifications; to make provision about student finance and fees; to make provision about assessments by the Office for Students; to make provision about the funding of certain post-16 education or training providers; and for connected purposes."

3. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 25 Hydref 2021 ac fe'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 26 Hydref 2021, lle cafodd ei ddarllenid cyntaf a'i ail ddarllenid. Hyd yma, ni chyhoeddwyd pryd y bydd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae Rheol Sefydlog 29.2 yn nodi y dylai memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gael ei osod fel arfer heb fod yn hwyrach na phythefnos ar ôl cyflwyno'r Bil".

5. Ar 9 Gorffennaf 2021, gosododd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol² (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.

6. Mae paragraffau 4 i 19 yn ymdrin â'r Memorandwm a'r Bil fel yr oedd cyn y gwnaed gwelliannau i'r Bil gan Dŷ'r Arglwyddi.

¹ Y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16, fel y'i cyflwynwyd (Bil Tŷ'r Arglwyddi 5)

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16, Gorffennaf 2021

7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 21 Hydref 2021.³ Cafodd y dyddiad ei ymestyn wedi hynny i 16 Rhagfyr 2021.⁴

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

8. Mae paragraffau 6 i 12 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef cymalau 1, 4 a 14.

9. Mae cymal 1 yn darparu ar gyfer cynlluniau gwella sgiliau lleol, gan gyflwyno dyletswyddau ar ddarparwyr penodol ym maes addysg a hyfforddiant i gydweithredu â chyrff dynodedig sy'n cynrychioli cyflogwyr i ddatblygu cynlluniau gwella sgiliau lleol a rhoi sylw i'r cynlluniau ar ôl iddynt gael eu datblygu.

10. Mae cymal 4 yn nodi ystyr rhai ymadroddion a ddefnyddir yng nghymal 1, a'r ymadroddion perthnasol at ddibenion y Memorandwm hwn yw:

- ystyr "darparwr perthnasol" yw darparwr addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 sef —
 - a. sefydliad yn y sector addysg bellach (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 91(3) o *Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992* ("Deddf 1992")),
 - b. darparwr addysg uwch (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 83(1) o *Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017*),
 - c. darparwr hyfforddiant annibynnol, neu
 - d. awdurdod lleol yn Lloegr, Academi 16 i 19 neu ysgol a nodir neu a ddisgrifir mewn rheoliadau a wneir drwy offeryn statudol gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- ystyr "ardal benodedig" yw ardal yn Lloegr.

³ Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16](#), Gorffennaf 2021

⁴ Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16](#), Tachwedd 2021

11. Byddai'r diffiniad o "ddarparwr perthnasol" yn cwmpasu darparwr yng Nghymru, fel coleg chweched dosbarth.

12. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 1 a 4. Fodd bynnag, mae paragraff 9 o'r Memorandwm yn nodi:

"Gan fod darparwyr yng Nghymru'n gallu darparu addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 yr ystyrir ei fod yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr, gall rhai darparwyr yng Nghymru ddod o fewn cwmpas y dyletswyddau uchod mewn perthynas â darpariaeth o'r fath."

13. Mae cymal 14 yn addasu adran 22 o *Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998* (Deddf 1998) sy'n rhoi pŵer cydredol eang i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau y gellid ei ddefnyddio i awdurdodi neu ei gwneud yn ofynnol rhoi grantiau neu fenthyciadau at unrhyw ddibenion rhagnodedig i fyfyrwyr cymwys mewn cysylltiad â'u cyrsiau addysg uwch neu bellach a ddynodir gan neu o dan reoliadau.

14. Mae paragraff 11 o'r Memorandwm yn nodi:

"Mae rhai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'w harfer mewn perthynas â Chymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Nid oes yr un o'r addasiadau yn ymwneud yn benodol â swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan y ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud rheoliadau yn y dyfodol sy'n gweithredu'r Hawl i Fenthyciad Gydol Oes a bydd yn dibynnu ar swyddogaethau diwygiedig yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 at y diben hwn. Mae'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'i diwygiadau arfaethedig i adran 22 o Ddeddf 1998 yn golygu y bydd yr addasiadau a gymhwysir mewn perthynas â modiwlau cyrsiau yn cael eu dwyn ymlaen i ddarpariaethau sy'n arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn gydredol â Gweinidogion Cymru) mewn perthynas â Chymru, ac felly maent yn ddiwygiadau'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru."

15. Nid yw'r Memorandwm yn rhoi gwybodaeth am ffynhonnell wybodaeth Llywodraeth Cymru ynghylch bwriad Llywodraeth y DU i wneud rheoliadau yn y dyfodol.

16. Mae Atodiad A i nodiadau esboniadol y Bil yn cadarnhau bod Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymal 14 o'r Bil yn unig.⁵

Y rhesymau dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil

17. Mae paragraffau 13 a 14 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

18. Mae'r Memorandwm yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn argymhell na ddylai'r Senedd roi cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 1 a 4 o'r Bil. Dywedodd y Gweinidog:

*"Credaf fod gosod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru yn fater sydd wedi'i ddatganoli. At hynny, gallai'r darpariaethau hyn osod beichiau diangen ar sefydliadau yng Nghymru. Gallai hyn arwain at ddargyfeirio adnoddau sefydliad yng Nghymru yn groes i'r gofyniad datganoledig i gyfeirio adnoddau mewn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r rhai a nodwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i ofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i ymdrin â'm pryderon."*⁶

19. Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn argymhell na ddylai'r Senedd roi cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymal 14 o'r Bil. Dywedodd y Gweinidog:

*"Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r gwelliannau mewn perthynas ag adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1992 yn y Bil hwn gan Lywodraeth y DU gan fod y darpariaethau'n diwygio swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr ac nid ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr Gweinidogion Cymru."*⁷

⁵ Y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 (HL Bill 5), [Nodiadau Esboniadol](#), Atodiad A

⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 18

⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 17

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru

20. Ar 29 Hydref 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol⁸ (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd⁹. Cyflwynwyd hwn i Dŷ'r Cyffredin yn dilyn gwelliant yn Nhŷ'r Arglwyddi.

21. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 16 Rhagfyr 2021.¹⁰

Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm a'r gwelliannau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

22. Ym mharagraffau 6 i 8 o Femorandwm Rhif 2 mae'r Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers i'r Memorandwm gael ei osod ym mis Gorffennaf 2021, fel a ganlyn:

"Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn (Memorandwm Rhif 2) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am welliannau a wnaed gan Lywodraeth y DU i gymalau 1 a 4 o'r Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref 2021.

Nid yw fy marn ar y cymalau hyn wedi newid. "

23. Mae paragraffau 9 i 13 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi'r gwelliannau y cytunwyd arnynt ers gosod y Memorandwm ac y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

24. Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi:

"Cytunwyd ar welliannau i [gymalau 1 a 4] yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae rhifau cymalau yn ymwneud â'r fersiwn ddiweddaraf o'r Bil. Nid yw'n hysbys eto pa rai o'r gwelliannau hyn, os o gwbl, fydd yn aros yn y Bil. (...)

⁸ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\), y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16](#), Hydref 2021

⁹ [Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16](#) (Bil 176)

¹⁰ Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Rhif 2\) ar gyfer y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16](#), Tachwedd 2021

Pan fo gwelliannau wedi'u gwneud i gymalau a oedd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ac a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf fel rhai y mae rheol sefydlog 29.1(i) yn gymwys iddynt, nid yw ein safbwynt wedi newid o ran bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hyn yn rhinwedd rheol sefydlog 29.1(i)."¹¹

25. Ym mharagraff 14 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

"Er fy mod yn cael fy nghalonogi bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i gyfyngu ar gwmpasaddysg a hyfforddiant ôl-16 sy'n dod o fewn cwmpas y cynlluniau gwella sgiliau lleol, nid yw'r gwelliannau y cytunwyd arnynt yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref yn mynd i'r afael yn ddigonol â'm pryderon."

26. Mae'n mynd rhagddo i ddweud:

"Yn fy marn i, mae'r gwelliannau a wnaed i gymalau 1 a 4 o'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn cynyddu'r posibilrwydd y gallai sefydliadau yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar gyfer Lloegr. Bydd y darpariaethau hefyd yn creu ansicrwydd i sefydliadau yng Nghymru ynghylch a allai eu darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a gynigir o dan Gymal 1 sy'n ymwneud â pharatoi a chyfrannu at gynlluniau gwella sgiliau lleol. Efallai na fydd sefydliadau'n gwybod a ystyrir bod rhai o'u cyrsiau yn "berthnasol" (material) i anghenion sgiliau ardal leol yn Lloegr. Gallai'r sefyllfa hon newid o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar nifer y myfyrwyr o Loegr sy'n dewis astudio mewn sefydliadau yng Nghymru. Mae hyn yn peri pryder arbennig gan fod y gwelliannau'n dod â chronfeydd cymorth i fyfyrwyr o fewn y diffiniad o beth yw addysg a hyfforddiant ôl-16 "a ariennir gan Loegr". At hynny, nid yw'r Bil yn diffinio ystyr addysg a hyfforddiant ôl-16 "technegol" (technical) ac mae'n agor y posibilrwydd y gallai ystod eang o gyrsiau ein sefydliadau addysg bellach ac uwch fod o fewn cwmpas dyletswyddau'r cynlluniau gwella sgiliau lleol.

Diben y cynlluniau gwella sgiliau lleol arfaethedig yw mynd i'r afael ag anghenion sgiliau ardaloedd lleol yn Lloegr. Rwyf yn bryderus y gallai gosod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru i roi sylw i anghenion sgiliau

¹¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraffau 9 a 13

*ardaloedd lleol yn Lloegr ddargyfeirio'r adnoddau oddi wrth y sefydliadau hynny sy'n ymateb i anghenion sgiliau Cymru. Nid wyf yn gwrthwynebu i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru sy'n dewis ymrwymo i drefniadau ariannu gyda Llywodraeth y DU ar gyfer darpariaeth benodedig a Llywodraeth y DU yn atodi telerau ac amodau i gyllid o'r fath. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn bod gosod dyletswyddau statudol ar sefydliadau yng Nghymru naill ai'n angenrheidiol nac yn gymesur."*¹²

27. Mae'r Gweinidog hefyd yn cadarnhau ei fod yn parhau i gredu y gallai cymalau 1 a 4 fod â goblygiadau ariannol i sefydliadau yng Nghymru.¹³

28. Er ei fod yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth y DU hyd yma mewn perthynas â'r angen i wneud newidiadau i'r Bil, mae'r Gweinidog yn cloi drwy ddweud:

"...credaf y bydd angen gwneud gwelliannau pellach i'r Bil i fynd i'r afael â'm pryderon ynghylch yr effeithiau posibl sy'n deillio o'r dyletswyddau y bwriedir eu rhoi ar sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg a hyfforddiant ôl-16. (...)

Nid yw gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU i gymalau 1 a 4 yn mynd i'r afael â'm pryderon a nodir uchod. Ni allaf argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau hyn yn y Bil ar sail y gwelliannau a gyflwynwyd hyd yma.

*Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau'r Bil a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel y bo'n briodol.*¹⁴

¹² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraffau 15 a 16

¹³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 17

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraffau 18, 20 a 21

2. Trafodaeth y Pwyllgor

30. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 4 Hydref 2021 a Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 15 Tachwedd 2021.¹⁵¹⁶

31. Rydym yn ymwybodol bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ysgrifennu at y Gweinidog mewn perthynas â'r Memorandwm, a bod y Gweinidog wedi ymateb ar 1 Hydref.¹⁷ Rydym yn defnyddio'r ohebiaeth hon yn ein hystyriaeth isod.

Ein barn ni

Barn Llywodraeth Cymru ar y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

32. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru fod cymalau 1, 4 a 14 yn gofyn am gydsyniad y Senedd, ac mai dim ond ar gyfer cymal 14 y mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru.

33. Rydym hefyd yn cydnabod, yn y sefyllfa bresennol, na fydd y Gweinidog yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad i gymalau 1 a 4 o'r Bil oherwydd pryderon ynglŷn â'r modd y drafftwyd y cymalau hynny'n wreiddiol a'r gwelliannau a wnaed iddynt wedyn.

34. Mae'n siomedig nad yw'r Memorandwm na Memorandwm Rhif 2 yn amlinellu'n glir pa newidiadau y byddai angen i Lywodraeth Cymru eu gweld yn cael eu gwneud i gymalau 1 a 4 o'r Bil er mwyn iddi argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

35. O ran y gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi, nodwn fod y Gweinidog, mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, wedi cadarnhau bod Adran Addysg Llywodraeth y DU wedi dweud y byddai Gweinidog y DU yn cyflwyno gwelliannau mewn perthynas â chymalau 1 a 4, a'i fod yn aros am ohebiaeth ffurfiol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, ni chadarnhaodd y Gweinidog y gwelliannau hynny y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdanynt ac a ydynt yn wahanol i gynigion yr Adran Addysg.

Casgliad 1. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag Adran Addysg Llywodraeth y DU, mae'n siomedig bod y Gweinidog yn credu y gallai'r gwelliannau a wnaed i gymalau 1 a 4 o'r Bil

¹⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Hydref 2021

¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 15 Tachwedd 2021

¹⁷ Llythyr at y Gweinidog gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Medi 2021; Llythyr gan y Gweinidog at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Hydref 2021

gynyddu'r posibilrwydd "y gallai sefydliadau yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar gyfer Lloegr." Rydym yn pryderu bod hyn yn dangos bod gwaith rhwynglywodraethol effeithiol wedi methu. At hyn, ac er ein bod yn cydnabod bod Llywodraeth y DU yn anghytuno â Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid ceisio cydsyniad ar gyfer cymalau 1 a 4 o'r Bil, mae'r mater hwn, unwaith eto, yn amlygu cymhlethdodau'r setliad datganoli.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau'r canlynol pa welliannau y byddai angen i Lywodraeth Cymru eu gweld yn cael eu gwneud i gymalau 1 a 4 o'r Bil er mwyn iddi argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil.

36. Nodwn asesiad y Gweinidog yn y Memorandwm ynghylch cymal 14 o'r Bil.

Casgliad 2. O ran cymal 14 o'r Bil, mae'r Memorandwm yn cyfeirio at fwriad Llywodraeth y DU i wneud rheoliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw ffynhonnell y wybodaeth hon wedi'i nodi yn y Memorandwm. Nodwn fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cael rhagor o wybodaeth erbyn hyn, ond dylai'r wybodaeth hon fod wedi cael ei chynnwys yn y Memorandwm.

37. Mae'r Memorandwm hefyd yn methu ag egluro pam nad yw'r addasiadau a wnaed gan gymal 14 i adran 22 o Ddeddf 1998 yn ymwneud â'r swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan yr adran honno.

38. Nodwn fod y Gweinidog, yn ei ymateb i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, wedi dweud y canlynol yn y cyswllt hwn:

"Nid yw pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu newid gan yr addasiadau arfaethedig i adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 fel y darperir ar eu cyfer gan gymal 14 y Bil. Mae'r rhesymau dros hyn fel a ganlyn. Mae cymal 14 yn diwygio Deddf 1998 i ddarparu esboniad i adran 22 y Ddeddf honno (sy'n bŵer galluogi ar gyfer gwneud y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru a Lloegr) fel bod modiwlau o gyrsiau addysg uwch (ac nid dim ond y cyrsiau hyn yn eu cyfanrwydd) yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Dim ond i'r graddau y mae swyddogaethau yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol y mae'r esboniad yn effeithiol. Mae rhai o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn arferadwy mewn perthynas â Chymru ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru, er nad oes yr un o'r swyddogaethau hynny'n destun gwelliannau testunol i'w gwneud gan y Bil.

Fodd bynnag, dim ond swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol sydd i'w diwygio, a gadewir swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr fel y maent.

Mae swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gwneud rheoliadau o dan adran 22(1) sy'n awdurdodi cynnig grantiau neu fenthyciadau mewn cysylltiad â modiwlau cyrsiau AU neu AB yn arferadwy mewn perthynas â Lloegr yn unig. Mae'r angen am gydsyniad deddfwriaethol yn deillio o'r ffaith bod pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wedi'u gwahanu mewn ffordd anghyflawn pan ddatganolwyd y swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr i Gymru o dan Ddeddf 1998.

Os caiff y Bil ei basio, ni fydd pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 22 Deddf 1998 yr un fath â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd pwerau Gweinidogion Cymru yn parhau fel y maent ar hyn o bryd ac yn berthnasol i gyrsiau cyfan ond nid i fodiwlau cyrsiau o'r fath. Yn fy llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, nodais mai drwy Fil Senedd y dylid cyflawni darpariaeth o'r fath mewn perthynas â Chymru."

39. Er ein bod yn cydnabod yr esboniad pellach a roddwyd i'r Pwyllgor, dylid bod wedi cynnwys dadansoddiad manylach o gymal 14 yn y Memorandwm, yn enwedig o gofio bod cymal 14 yn ymwneud â phŵer cydredol sy'n bod eisoes.

40. Er na thrafodir cymal 14 ym Memorandwm Rhif 2, rydym yn cydnabod datganiad y Gweinidog ym Memorandwm Rhif 2, sy'n nodi:

"Pan fo gwelliannau wedi'u gwneud i gymalau a oedd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ac a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf fel rhai y mae rheol sefydlog 29.1(i) yn gymwys iddynt, nid yw ein safbwynt wedi newid o ran bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hyn yn rhinwedd rheol sefydlog 29.1(i)."¹⁸

Y darpariaethau eraill y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

41. Nid yw'n glir i ni pam nad yw Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 25 y Bil fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol (sef cymal rhif 35 yn awr yn y Bil fel y'i diwygiwyd),

¹⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 13

ac i ychwanegu cymal 25 newydd yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac eglurwn ein rhesymu isod.

42. Mae'r cymal 25 newydd yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn darparu bod gan bobl o bob oed hawl i gael addysg am ddim ar gwrs cymeradwy hyd at Lefel 3 a gyflenwir gan ddarparwr addysg bellach neu dechnegol cymeradwy, os nad yw eisoes wedi astudio ar y lefel honno. Rhaid i'r darparwr cymeradwy ddarparu cyllid at y diben hwnnw. Mae cymal 25 newydd hefyd yn gosod gofynion ar gyflogwyr mewn perthynas â gwario arian ar bobl o dan 25 oed ar brentisiaethau.

43. Nid yw gwaith drafftio'r cymal hwn yn gwneud ei ystyr na'i effaith ymarferol yn glir. Er enghraifft, nid oes diffiniad o "gwrs cymeradwy", "darparwr cymeradwy" na "Lefel 3". Nid oes unrhyw arwydd clir ychwaith o ble y daw'r cyllid sy'n ofynnol yn ôl y cymal.

44. Nid oes dim yn y cymal newydd fel y'i drafftiwyd sy'n ymddangos fel pe bai'n cyfyngu ar ei effaith i Loegr. Mae'r nodyn esboniadol i'r Bil fel y'i diwygiwyd yn nodi mai nod y cymal 25 newydd yw rhoi'r hawl gyfreithiol i bawb yn Lloegr gael addysg am ddim ar gwrs cymeradwy ar gyfer eu cymhwyster cyntaf hyd at, a chan gynnwys, lefel 3, waeth beth fo oedran y dysgwr. Fodd bynnag, nid yw'r cyfeiriad at Loegr yn cael ei adlewyrchu ar wyneb y Bil.¹⁹

45. O dan Reol Sefydlog 29, darpariaeth berthnasol yw unrhyw gymal mewn Bil sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ymddengys bod y cymal 25 newydd yn y Bil yn ddarpariaeth berthnasol gan ei bod yn ymwneud ag addysg, sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac nid oes dim yn y ddarpariaeth sy'n nodi nad yw'n gymwys i Gymru.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau pam na ddylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal 25 newydd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin.

46. Mae cymal 35 yn y fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd gan Dŷ'r Arglwyddi yn diwygio Deddf 1992. Mae'r diwygiadau'n newid y mecanwaith y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei ddefnyddio i ddynodi sefydliadau addysgol yn Lloegr fel rhai sy'n dod o fewn y sector addysg bellach statudol. Byddai'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddynodi sefydliad drwy orchymyn gweinyddol y mae'n rhaid ei gyhoeddi, yn hytrach na thrwy offeryn statudol fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd.

¹⁹ Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 (Bil 176), Nodiadau esboniadol, paragraff 136

47. Mae cymal 35(2) yn gwneud darpariaeth i egluro'r awdurdod priodol i wneud gorchmynion dynodi mewn perthynas â sefydliadau addysgol yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae paragraff 184 o'r nodiadau esboniadol diwygiedig i'r Bil yn nodi mai mater datganoledig yw hwn. Mae Atodiad A i'r nodiadau esboniadol hefyd yn nodi bod cymal 35 yn gymwys i Gymru ac y byddai'r ddarpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

48. Rydym yn ymwybodol bod y mater wedi'i godi yn yr ohebiaeth rhwng y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Gweinidog, a nodwn fod y Gweinidog yn dweud:

"Mae cymal 25 [sef cymal 35 yn awr] yn diwygio Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac mae'n berthnasol i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud unrhyw newidiadau i'r gyfraith - egluro y mae ac ailddatgan y gyfraith mewn perthynas â Chymru, ac yn fy marn i nid oes angen cydsyniad y Senedd."

49. Er ein bod yn cydnabod esboniad y Gweinidog, nid ydym yn cytuno â'i safbwynt. Cyfeiriwn unwaith eto at Reol Sefydlog 29.1(i) sy'n diffinio Bil perthnasol fel Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru "at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd)".

50. Nid yw'r Rheol Sefydlog yn gwahaniaethu rhwng cyfraith newydd neu ailddatganiad o'r gyfraith bresennol, dim ond bod darpariaeth mewn Bil y DU yn ddarpariaeth berthnasol at ddibenion proses cydsyniad deddfwriaethol y Senedd os yw'n gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Casgliad 3. Yn ein barn ni, dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 35 yn y Bil (cymal 25 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol).

Sylwadau cyffredinol

51. Yn olaf, nodwn fod y Memorandwm wedi'i osod yn y Senedd dros saith wythnos ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm yn cynnwys esboniad am yr oedi hwn. Gwnaethom dynnu sylw at fater tebyg yn ein hadroddiad diweddar ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol (Memorandwm y Bil Cymwysterau Proffesiynol).²⁰ Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaethom argymhell y dylai'r Gweinidog hysbysu Pwyllgor Busnes y Senedd am safbwynt rhesymegol Llywodraeth

²⁰ Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawner a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Cymwysterau Proffesiynol](#), Medi 2021

Cymru ynghylch pryd y byddai'n gallu gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol o fewn pythefnos i Bil gael ei gyflwyno i Senedd y DU, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).²¹

52. Er ein bod yn nodi bod y Gweinidog wedi rhoi esboniad mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, rydym yn tynnu sylw unwaith eto at y ffaith bod barn gyffredinol Llywodraeth Cymru ynghylch sut a phryd y mae terfyn amser y Rheol Sefydlog yn gyraeddadwy yn bwysig, yn enwedig i Bwyllgorau sy'n gyfrifol am graffu ar femoranda. Felly, er ein bod yn cydnabod bod y Gweinidog wedi ymateb²² yn gadarnhaol i'r argymhelliad yn ein hadroddiad ar Femorandwm y Bil Cymwysterau Proffesiynol, rydym yn atgoffa'r Gweinidog o ba mor bwysig yw bod yn dryloyw ar y mater hwn.

²¹ Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cymwysterau Proffesiynol, argymhelliad 1

²² Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg mewn perthynas â'r Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol, 6 Hydref 2021
